**Trip Llangrannog**

**Mehefin 19$^{eg}$ – 21$^{ain}$**

Annwyl Riant / Ofalwr

Fe fydd y bws sydd yn cludo'r plant i Langrannog yn gadael am **9:15y.b.** o St John's Road bore Llun Mehefin 19$^{eg}$.

Bydd stafell drws nesaf i Flwyddyn 3 (mynediad drwy iard yr adran iau) ar agor o **8:15 ymlaen** i dderbyn y bagiau. Sicrhewch fod enw eich plentyn yn glir ar y bag/sach gysgu os gwelwch yn dda. Gwnewch yn siwr nad **yw'r bag/ces yn rhy fawr nac yn rhy drwm i'ch plentyn ei gario.**

Os oes gan eich plentyn unrhyw foddion, pwmp asthma neu dabledi teithio yna dylid eu rhoi i Miss Downes / Miss Hughes ac nid eu pacio ym mag eich plentyn. Dylid hefyd labelu y moddion a llenwi y ffurflen gweinyddu moddion a'i dychwelyd i'r ysgol.

Cofiwch i bacio dillad glaw mae'n gaddo cawodydd ar y dydd Mawrth!

Ni fydd angen pecyn bwyd ar eich plentyn – bydd cinio ar gael ar ôl cyrraedd y gwersyll a chyn gadael ar y dydd Mercher.

Mae yna siop fechan yng ngwersyll Llangrannog ac mae £15 yn fwy na digon o arian i'w wario yno. Rhowch £5 (arian mân) mewn 3 amlen a'u dychwelyd i'r ysgol erbyn dydd Gwener, os yn bosib. Yr athrawon fydd yn dosbarthu'r arian hyn yn ddyddiol. Gellir mynd ag ychydig o arian poced i'w wario ar y dydd Llun.

**Nid yw'r ysgol na Llangrannog yn caniatau i blant ddefnyddio ffonau symudol** a gofynnwn hefyd iddynt beidio a mynd ac unrhyw bethau costus eraill fel ipads gyda nhw.

**Os bydd unrhyw ddisgybl yn torri rheolau'r gwersyll neu'r Ysgol yna byddant yn colli tro ar y gweithgareddau neu fe fyddwn yn cysylltu â'u rhieni i ddod i'w casglu o Langrannog**

Hoffwn ddiolch i'r athrawon sydd wedi gwirfoddoli i fynd gyda'r plant ar y trip - er mwyn sicrhau fod y plant yn cael cyfle i fwynhau eu hunain drwy gyfrwng y Gymraeg yn Llangrannog. Hebddynt ni fuasai'r trip yn bosib.

**Bydd y bws yn dychwelyd i'r ysgol erbyn oddeutu 4:00y.h. prynhawn Mercher.**

Diolch yn fawr

N. Downes